Archif, Agored, Amdani:

Darganfyddiadau ‘Cymru Anabl’, prosiect Archif Sgrin a Sain Llyfrgell Genedlaethol Cymru

Medi 2024

Roedd Cymru Anabl yn brosiect gan Archif Sgrin a Sain Llyfrgell Genedlaethol Cymru mewn partneriaeth â Disability Arts Cymru, Hijinx Theatre Company a TAPE: Community Music and Film, gyda chefnogaeth cronfa Treftadaeth Sgrin Loteri Genedlaethol y BFI.

LLYFRGELL GENEDLAETHOL CYMRU
THE NATIONAL LIBRARY OF WALES

Cefndir

Yn Medi 2023 dechreuodd staff Archif Sgrin a Sain Llyfrgell Genedlaethol Cymru ar brosiect newydd, Cymru Anabl, wedi'i ariannu gan gyllid Loteri Genedlaethol y British Film Institute (BFI). Yn ogystal, roedd Disability Arts Cymru, Hijinx Theatre Company a TAPE: Community Music and Film yn bartneriaid ar y prosiect.

Gyda model cymdeithasol anabledd wrth ei graidd, bwriedir teitl y prosiect fel adlewyrchiad ar statws cenedl sydd, ar hyn o bryd, ddim yn hygyrch i nifer fawr iawn o bobl, a'r ffaith bod yr un peth yn wir amdanom ni, fel archif cenedlaethol.

Gan ddewis anabledd a hygyrchedd yn thema i'r prosiect, fe'i dyluniwyd gyda chryn ystyriaeth i gapasiti staff a'r cyfnod gymharol fyr - blwyddyn - i'w gyflawni. Roedd tair cangen fras i weithgaredd y prosiect, sef dysgu ac ymchwil; ymgysylltu; ac asesu ac arddangos.

Y prosiect

Yn wreiddiol, roedd pedwar aelod o staff ynghlwm â'r prosiect, ond erbyn dechrau dim ond dau fyddai'n rhan ohono. Felly roedd gweithgaredd y prosiect ychydig yn llai na'r gobaith cychwynnol.

Serch hynny, llwyddodd y prosiect i gyflawni nifer o'r gobeithion cynnar, ac yn bennaf o'r rheini oedd creu cysylltiadau newydd ac ymgysylltu'n uniongyrchol gyda phobl anabl.

Dyma grynodeb o weithgaredd y prosiect.

Dysgu ac Ymchwil

- Gwnaeth staff y prosiect ymgymryd â hyfforddiant ymwybyddiaeth anabledd ac ymwybyddiaeth Byddardod er mwyn paratoi ar gyfer y prosiect.
- Cynhaliwyd cyfres o gyfarfodydd rhithiol er mwyn i staff y prosiect ddod i adnabod a deall mwy am waith partneriaid y prosiect, gan gynnwys ymarferion gorau.
- Roedd dipyn o waith ymchwil i gasgliadau'r archif, er mwyn deall pa eitemau oedd eisoes wedi'u digido ac oedd yn portreadu anabledd neu wedi'u creu gan bobl anabl.
- Roedd hefyd gyfnod o ymchwil desg i waith ysgolheigaidd ac o'r sector treftadaeth am archifau a hygyrchedd.

Ymgysylltu

- Swmp mwyaf gweithgaredd y prosiect oedd cynnal gweithdai cyhoeddus er mwyn ymgysylltu'n uniongyrchol â phobl anabl a defnyddwyr archif ar faterion o hygyrchedd a chynrychiolaeth archifol.
- Fel rhan o'r broses yma ymgysyllton hefyd gydag arbenigwyr, fel ymgynghorydd BSL ac arbenigwr ym maes hygyrchedd archifol, er mwyn ehangu ein dealltwriaeth a gwella'n cynnig.

- Datblygwyd tasg ar gyfer gwirfoddolwyr LlGC er mwyn iddyn nhw ymwneud â'r prosiect hefyd, ac ysgrifenwyd blogiau am waith y prosiect ar gyfer gwefan LlGC i sicrhau lledaeniad gwybodaeth.

Asesu ac Arddangos

- Comisiynwyd is-deitlau disgrifiadol a sain ddisgrifiad ar gyfer nifer o eitemau ffilm a fideo o gasgliadau'r Archif, ac o hyn hefyd crëwyd pecyn o ffilmiau a'u hyrwyddo nhw drwy Ganolfan Ffilm Cymru i ddangoswyr ffilmiau ar draws Gymru.
- Hefyd, cynhaliwyd digwyddiad i ddathlu'r prosiect, rhannu'r darganfyddiadau a dangos ffilmiau.
- Yn ychwanegol, drwy ddadansoddi'r sgyrsiau i ni eu cael dros gyfnod y prosiect mae'r modd i adnabod a nodi blaenoriaethau gwaith y dyfodol, fel sydd i'w cael yn y ddogfen hon.

Adborth

Wrth ymgymryd â'r gweithgaredd uchod, aeth staff y prosiect ati i nodi, dadansoddi a chrynhoi'r holl adborth a dderbyniwyd gan gyfranogwyr a phartneriaid.

Roedd tipyn o bwyslais ar bwysigrwydd systemau a staffio addas ac effeithlon, yn arbennig wrth ystyried profiad y defnyddiwr. Er enghraifft, tynwyd tipyn o sylw at systemau chwilio a phwysigrwydd metadata sy'n drylwyr, cywir ond hefyd yn eglur. Adlewyrchwyd ar bwysigrwydd amrywiaeth o fewn gweithlu rhywle fel archif clyweledol, er mwyn sicrhau bod profiadau bywyd wedi'u hadlewyrchu yn y gwasanaeth yn ogystal â'r casgliadau.

Nododd nifer o gyfranogwyr hefyd eu bod yn cydnabod bod angen adnoddau sylweddol er mwyn cefnogi systemau effeithlon, boed hynny'n staff neu'n gyllid, a bod unrhyw doriad ar yr adnoddau rheini yn gallu effeithio'n negyddol ar fynediad a hygyrchedd.

Roedd chwant am arweiniad gan sefydliadau pwysig ym meysydd hygyrchedd, a hynny drwy waith sy'n annog mynediad a chwilfrydedd, gan gynnwys adnabod beth yw'r ' pyrth' tuag at ffilm archifol. Law yn llaw â hyn roedd gobaith am bwyslais ar addysg ac ymgysylltu, mewn cyd-destun fel ysgolion ond hefyd ymhell tu hwnt i sefydliadau addysg ffurfiol.

Adborth cyffredin gan gyfranogwyr anabl oedd ei bod yn hanfodol bod yr ymdrechion yma'n ddidwyll ac yn rhai sy'n cynnwys pobl anabl yn y broses. Rhaid gwella cyd-weithio, yn fewnol i sefydliadau ond hefyd rhwng sefydliadau , er mwyn cryfhau ymdrechion a rhannu gwybodaeth am weithio'n gynhwysol.

Cynhalion ni un gweithdy, ar-lein, oedd â ffocws ar y gymuned Fyddar. Roedd nifer o bethau pwysig yn deillio o'r sesiwn yma'n benodol, ac mae'n hollbwysig nodi a chydnabod nad yw pobl Fyddar o reidrwydd yn ystyried eu hunain yn anabl.

Mae nifer o rwystrau penodol i bobl Fyddar wrth geisio darganfod yr archif, a hynny yn bennaf yn deillio o'r diffyg gwybodaeth am neu ddarpariaeth o wasanaeth BSL.

Nes bod rhai addasiadau mynediad sylfaenol yn digwydd, fel defnydd llawer ehangach o BSL ac is-deitlau, sefydliad a chasgliad i bobl sy'n clywed yn unig fydd yr archif

Blaenoriaethau

Un o'r cwestiynau ofynnon ni i gyfranogwyr y prosiect oedd "sut beth yw archif ffilm y dyfodol?". Roedd hyn yn gwestiwn wedi'i ddylunio i annog meddwl yn bositif am gamau nesaf, ac fel byddai rhywun yn disgwyl, roedd nifer fawr o syniadau eang gan y cyfranogwyr.

Mae'r rhestr isod yn cynrychioli'r blaenoriaethau materol ar gyfer gwaith i wella hygyrchedd yr Archif Sgrin a Sain, ar sail gwaith ymgysylltu'r prosiect, sydd wedi'i grynhoi uchod.

Chwaraewr Digidol Ar-Lein

Byddai cael mynediad i ffilmiau a fideos drwy chwaraewr ar-lein yn golygu bod gwell mynediad i ystod eang iawn o bobl, gan gynnwys pobl anabl.

Mae'n hollbwysig bod chwaraewr o'r math yn medru cynnal nifer o ffrydiau o amryw ddeunyddiau mynediad (e.e. is-deitlau, sain ddisgrifiad).

Mae'n bwysig bod chwaraewr o'r math yma hefyd yn cynnwys teclynnau i addasu'r chwarae (e.e. addasu cyflymder a disgleirdeb yn ogystal â sain).

System Chwilio Gadarn

Mae system chwilio effeithlon sy'n seiliedig ar fetadata trylwyr, dibynadwy a dealladwy yn hollbwysig i sicrhau profiad defnyddiwr boddhaol a hygyrch.

Dylai bod hidlwyr ar ganlyniadau chwilio yn fanwl ac yn gywir, a lle'n bosib dylai bod modd addasu sut mae'r canlyniadau a'r wybodaeth yn cael eu cyflwyno i siwtio anghenion y defnyddiwr.

Cefnogaeth Staff

Rhaid bod digon o adnodd a chefnogaeth i staff er mwyn iddyn nhw allu gweithio'n effeithlon. Mae hyn yn cynnwys bod amryw bolisïau yn eu lle sy'n adlewyrchu blaenoriaeth i hygyrchedd.

Dylai fod gan staff yr amser i gefnogi defnyddwyr i fedru dod i adnabod systemau, ac hynny'n seiliedig ar eu dealltwriaeth drylwyr eu hunain o systemau a chasgliadau.

Cydweithio

Mae cydweithio - yn sefydliadol, yn gymunedol a gyda phartneriaid allanol - yn hynod bwysig i wella a chynyddu hygyrchedd a chynhwysiant.

Yn ogystal â phrosiectau a chydweithrediadau ffurfiol, dylai cydweithio hefyd sicrhau bod anogaeth ddigonol i'r cyhoedd a grwpiau arbenigol ymwneud â'r archif.

Medrai gwaith yr archif fod yn sail i addysgu ar faterion hygyrchedd a chynhwysiant yn ehangach.

Diweddglo

Mewn un gweithdy disgrifiodd un o'r cyfrangowyr ffilm archifol fel rhywbeth 'amhrisiadwy'. Maen nhw'n hollol gywir, wrth gwrs, ac mae yna fygythiad mawr bydd y ffilmiau a'r fideos amhrisiadwy yma'n parhau i aros dan glo, yn hytrach na'u bod nhw ar gael i ystod ehangach o bobl.

Y gobaith gwreiddiol ar ddechrau dylunio'r prosiect oedd creu cynllun gweithredu mewnol ar gyfer gwella hygyrchedd ein casgliadau. O dan yr amgylchiadau presennol – sef cyfnod o lymder ar draws y sector treftadaeth – mae medru rhoi amserlen gadarn ar unrhyw agwedd o'r gwaith yma yn amhosib.

Ein bwriad gyda'r ddogfen yma felly yw medru ei defnyddio fel canllaw i'r Archif Sgrin a Sain wrth ddylunio gwaith y dyfodol, gan sicrhau bod y blaenoriaethau mynediad a hygyrchedd a nodir yma yn canolog yn ein proses gynllunio.

Ein gobaith hefyd yw bod y ddogfen yn dangos tryloywder ac yn golygu bod modd i ni fod yn atebol i'r cyhoedd yn y maes yma o waith.

Cyswllt

E-bost: sgrinasain@llyfrgell.cymru / nia.edwards-behi@llyfrgell.cymru